

Adran 1

Pwrrpas arweinydd cynhwysol ydy i fod yn weledol i'r gwahaniaeth rhwng pob unigolyn boed yn aelod o staff, plentyn neu'r teuluoedd. i drin pob unigolyn yn unigryw a bod yn wylidwrs fod pob unigolyn ag anghenion gwahanol, dylid fod yn agored i ddysgu sut i groesawi bob unigolyn fel ei fod yn rhan o'r gymuned mewn ffordd sydd yn ddiogel ac yn deg (Newstead a Isles-Buck, 2019; Ferdman *et al.* 2020; Scanlan a Johnson, 2021; Rodd, 2020). Dywedai Ferdman *et al.* (2020) fod arweinyddiaeth gynhwysol yn cael ei chreu drwy berthynas, a phwysigrwydd y perthynas adeiladol yma ydy i hybu cryfderau a gallu llawn pob un unigolyn sydd yn rhan o'r lleoliad. Dywedwyd byddai fod yn ystyriol o hyn o fudd er mwyn arwain lleoliad sydd yn gynhwysol. Heblaw hynny, Ferdman *et al.* (2020) a Öztürk (2013) dywedwyd fod gan arweinyddion heddiw heriau gwahanol ac eang ac awgrymwyd nad oes ateb clir i'r cwestiynau. Hynny yw dywedwyd fod gan bob cymuned gwahanol senarios sydd yn trosglwyddo llawer o unigrywiaeth, awgrymwyd fod y gwahanol ddiwylliannau yn ymuno er mwyn adeiladu a chefnogi pob amgylchiadau gwahanol.

Awgrymwyd Booysen (2020) a Nutbrown (2011) fod arweinyddiaeth gynhwysol yn briodol yn y gweithle yn bresennol, a bod hyn yn dangos arfer da er mwyn i unigolion i gael adnabyddiaeth ac i gael ei barchu. Cytunwyd Bowers *et al.* (2012) a Ferdman a Deane (2013) a awgrymwyd fod parchu a thrin unigolion yn hafal yn y gweithle yn arwydd arwyddocaol fod arweinyddiaeth dda a chadarn ar gael. Dywedwyd os byddai arweinyddiaeth gynhwysol mewn gweithle yn cael ei drosglwyddo yn gadarn byddai hyn yn haws i gyfnewid y cynllun.

Fodd bynnag nid yw arwain pobl yn meddwl fod angen dangos pŵer ond pwrrpas arweinyddiaeth ydy i weithio ochr yn ochr gyda'r staff o bob graddfa. Dywedai Brown (2020) gall pŵer gael ei ddefnyddio yn anghywir oherwydd dywedwyd mai hyn yn dibynnu ar beth sydd yn cael ei wneud a newid gyda phŵer i gydweithio fel tîm ac nid i orchymyn eraill. Cytunwyd Making Change Happen (2006) fod angen gweithio ochr yn ochr gydag unigolion a byddai hyn yn awgrymu fod arweinyddiaeth gadarn a chroesawgar ar gael yn y lleoliad er mwyn bod yn ymwybodol o anghenion personol yr unigolion yn y gweithle. Gwelwyd effaith cadarnhaol ar effeithiolrwydd gwaith os byddai'r gwerthoedd yn cael ei adnabod ym mhob unigolyn, hynny yw bod yr unigolyn yn teimlo yn ddiogel yn yr amgylchedd er mwyn gallu dathlu unigrywiaeth (Ho, 2012; Douglas, 2019; Rodd, 2020).

Yn y senario mae merch 4 mlwydd oed o'r enw Carys. Mae Carys wedi symud o Yn y senario mae merch 4 mlwydd oed o'r enw Carys. Mae Carys wedi symud o ganolbarth Cymru i fyw yma yn Nhe Cymru gyda'i mam. Mae Carys yn cael cinio ysgol am ddim. Mae Carys yn unigolyn tawel ac yn gweld yn anodd cymysgu a phlant eraill yn y dosbarth. Nid yw'r fam yn gweithio ar y foment ond yn edrych am waith. Mae'r fam yn dawel wrth ddod a Carys i'r ysgol ac nid ydynt i'w weld yn cymysgu

llawer gyda'r rhieni eraill ar y giât. Mae'r rhiant wedi mynychu nosweithiau rieni ond yn dawel a swil ac i'w weld yn bryderus. Un peth y codwyd yn y cyfarfod oedd bod Carys yn bryderus adref wrth drafod ysgol, dywedai'r fam nad yw Carys wedi bod yn cysgu yn iawn ac yn codi gyda hunllefau yn ganol nos.

Nid oedd arweinyddiaeth gynhwysol yn cael ei drosglwyddo yn y dechreuad gyda Carys, gwelwyd fod Carys yn dangos arwyddion arwahanrwydd a bod hyn yn ei rhwystro. Dywedwyd Ephgrave (2022), Ephgrave (2018) a Sharp (2022) os nad yw plentyn yn teimlo yn hapus yn y lleoliad byddai hyn yn ei rhwystro rhag datblygu. Dywedai'r maes dysgu pwysicaf ydy lles, pwysleisiwyd fod angen i hyn i fod yn gadarn yn ddyddiol er mwyn gallu ehangu ar ddatblygiadau ym mywyd yr unigolyn. Felly nid oedd hyn yn cael ei gyflawni, felly roedd yn rhaid newid y ffordd o weithredu er mwyn cyflawni gofynion Carys a'i fam (Llywodraeth Cymru, 2020).

Awgrymwyd yr ymarferydd a oedd yn arwain i adfyfrio'r sefyllfa er mwyn cael canlyniad cadarnhaol a bod angen ymyrryd yn syth a gweithio tuag at wneud i Carys ai theulu i deimlo fel rhan o gymuned yr ysgol (Hallett, 2016; Llywodraeth Cymru, 2020; unicef, dim dyddiad; CCUHP, 2016). Penderfynwyd trefnu cyfarfodydd gyda mam Carys bob wythnos i ddechrau er mwyn gallu rhannu gwybodaeth yn effeithiol a byddai hyn yn cryfhau perthynas y teulu gyda'r ysgol. Penderfynwyd hefyd i gadw dyddiadur sydd yn mynd yn nol ac ymlaen o'r ysgol i gadw cofnod o ddiwrnodau Carys ac i obeithio gweld datblygiad yn y teimladau. Fodd bynnag yn ôl Ferdman *et al.* (2020) byddai angen fod yn wyliadwrus nad dim ond llais y plentyn sy'n cael ei wrando arni ond fod llais y fam yn rhan arwyddocaol o'r cyfathrebu er mwyn dangos a throsglwyddo teimlad o gael ei werthfawrogi fel rhan o gymuned (Comisiynydd Plant Cymru, 2022). Hynny yw byddai cadw dyddiadur yn fuddiol i drosglwyddo llais y plentyn a'r fam am fod y fam i'w weld yn bryderus wrth drafod ar lafar felly byddai hyn o fudd iddyn nhw i allu trosglwyddo gwybodaeth yn hytrach ar y giât neu ffon. Fodd bynnag cyn awgrymu hyn byddai angen fod yn wyliadwrus fod y fam yn teimlo yn gartrefol i ysgrifennu a darllen, rhag iddi gael anhawster i ddarllen ac ysgrifennu (Claassens a Lessing, 2015).

Er hynny er mwyn gwneud y cyfarfodydd ar gyfathrebiad yn gynhwysol i bob un unigolyn sydd yn ymglymedig byddai Carys yn cael fod yn rhan o hyn hefyd. I daro hawliau plant unicef (dim dyddiad) byddai yn arddangos fod yr hawliau yma yno i'r plant er mwyn trosglwyddo ei anghenion nhw ac i fod yn ymwybodol o beth gall y sefydliad gwneud er mwyn ei chroesawa hi i mewn i ysgol yn gynhwysol (United Nations, 2022). Gwelwyd Murray (2019) fod gwranddo ar lais y plentyn yn dangos deallusrwydd clir o anghenion a diddordebau'r unigolyn, awgrymai fod hyn yn ffordd effeithiol o ddeall gwir ystyr tu ôl i anghenion plentyn. Er na fyddai Carys efallai yn hapus i siarad yn y cyfarfodydd ond gall hyn sbarduno sgwrs rhwng Carys a'r fam gyda'r ysgol. Byddai modd i Carys

a'i theulu i gael amser i feddwl er mwyn trosglwyddo gwir anghenion wrth gyfathrebu yn ddyddiol ar bapur neu yn wythnosol mewn cyfarfod. Ac fel gwir arweinydd cynhwysol dylai fod cysyniad clir fod y drysau o hyd ar agor er mwyn fod yn groesawgar i'r teulu (Llywodraeth Cymru, 2021; Llywodraeth Cymru, 2016, Comisiynydd Plant Cymru, 2022).

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2016), Llywodraeth Cymru (2020) a Leach a Lewis (2012) prif resymau o weithio yn agos gyda theuluoedd ydy i sicrhau fod yr anogaeth yna ar gael er mwyn datrys problemau yn gyflymach, i sefydlu iechyd meddwl da rhag pryderon a byddai trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol yn helpu i weithio ar ddatblygiad cadarnhaol y plant. Er hynny dywedai Llywodraeth Cymru (2021) nid yw hyn yn hawdd ei gynnal a chadw a awgrymai byddai angen gweithio ar yr ymarfer gynhwysol i gadw safonau yn uchel er mwyn dyfodol yr unigolyn a'i theulu (Department for Education, 2015; Llywodraeth Cymru 2020; Llywodraeth Cymru, dim dyddiad).

Gwelwyd os byddai perthnasoedd agos yn cael ei ddatblygu byddai hyn yn gydfyd gydag gweithio o dan arweiniad y plentyn a beth sydd yn fuddiol i Carys yn y senario yma, gwelwyd byddai hyn yn cael ei chefnogi gyda ffyrdd Reggio Emilia a Montessori sydd yn hybu y amgylchedd holistaidd mewn ffordd effeithiol (Thronton a Brunton, 2014; Gu, 2020). Heblaw hynny byddai theori Bronfenbrenner, Vygotsky a Maslow yn dangos mai y plentyn sydd yn ganolog yn yr ysgol a byddai angen rhyngweithiad cadarnhaol o amgylch Carys er mwyn cael effaith datblygiadol ar y datblygiad (Ettekal a Mahoney, 2017; Fulbrook, 2019; Aruma a Hanachor, 2017). Cefnogwyd hyn gyda Ephgrave (2018), Ephrave (2022), Llywodraeth Cymru (2022) a Sharp (2022) a phwysleisir fod angen i les plentyn i fod yn gadarn yn y sefydliadau a byddai hyn yn cyfuno gyda hawliau plant CCUHP (2016) a unicef (dim dyddiad) i sefydlu gwaelodlin goncrit wrth ystyried hawliau dynol y plentyn i fod yn hapus a ddiogel.

Mae'r cysyniad o statws cymdeithasol economaidd yn gallu cael ei farnu gan rhai unigolion, hynny yw gall farnu digwydd os nad oes rhiant yn awyddus i gyfrannu ac i gyfathrebu yn hyderus ar y gatiâu yn y boreau ac amser mynd adref (Jenna, 2018; Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022). Byddai pwyslais yn ôl Llywodraeth Cymru (2017a) fod yr angen yno i fuddsoddi amser i ddod i adnabod y plentyn a'i theulu yn gyflawn er mwyn gallu changu ar ffydd rhwng yr ysgol a'r cartref, nid yw hyn yn digwydd dros nos a byddai angen arwain yn gynhwysol i adnabod teuluoedd (Ferdman *et al.* 2020).

Er mwyn atal barnu i ddigwydd o ran yr ymarferwyr gyda'r teuluoedd yn ôl Department for Education (2015) a Cheung a Kam (2019) byddai angen hyfforddiant dwys i fabwysiadu sut i gymdeithasu yn effeithiol ac yn hyderus. Awgrymir mai prif broblem hyn ydy nad oes gan yr ymarferwyr y sgiliau cymdeithasol cadarnhaol er mwyn cymdeithasu gyda rhieni. Gwelir nad oes gan rhai ymarferwyr y sgiliau cymdeithasol er mwyn gallu cymdeithasu yn briodol ac nid mewn ffyrdd bygythiol a

dychrynlyd (Estyn, 2020). Wrth i statws yr ymarferwyr cael ei godi er mwyn fod yn groesawgar at rheini byddai gwahaniaeth mawr yn arweinyddiaeth gynhwysol yr ysgol er mwyn sefydlu perthnasoedd da er mwyn gallu adeiladu ar wybodaeth ac anghenion unigol teuluoedd wrth osgoi'r teuluoedd i deimlo yn unig (Ferdman *et al.* 2020; Öztürk, 2013).

Ond y gwir ydy fod aml o resymau gwahanol nad ydy'r rhiant yn hapus ac yn teimlo yn ddiogel i fod yn agored, gall hyn fod am resymau personol. Am nad yw'r rhiant yn gweithio gall hyn rhoi straen ar sefyllfaoedd arian a sut i gyflawni cyfleoedd da i'r plentyn (Llywodraeth Cymru, 2015). Gan fod y plentyn ar y cynllun prydau bwyd am ddim Department for Education (2018) byddai modd awgrymi i'r plentyn i ddod i glwb brecwast yr ysgol yn y boreau am ddim (Llywodraeth Cymru, 2014). Gall hyn osgoi pwysau ar y fam i roi prydau swmpus i Carys, ac yn dangos arfer da o fwyta yn iach i gyd-fynd gydag ysgolion iach (Cyngor Caerdydd, 2022). Yn ogystal byddai gofyn i roi help ac adborth priodol i'r fam er mwyn ei helpu i fynd ati i edrych am swydd, byddai hyn yn ôl Llywodraeth Cymru (2015) yn helpu'r fam i deimlo yn fwy sefydlog wrth ennill arian ac i helpu ei ieuchyd meddwl wrth fynd allan i weithio. Byddai angen cymorth ar rieni i fynd ati i gadw swydd barhaol ac wrth fod yn lleoliad blynyddoedd cynnar llwyddiannus dylai hyn fod yn rhan hanfodol o weithio gyda'i gilydd fel tîm er mwyn helpu dyfodol y teuluoedd. Ac wrth i Carys cael y cyfleoedd yn yr ysgol byddai hyn yn codi rhai pryderon rhag y fam er mwyn agor drysau i bethau arall (Llywodraeth Cymru, 2015; Llywodraeth Cymru, 2014; Llywodraeth Cymru, 2016; Llywodraeth Cymru, 2017; Llywodraeth Cymru, 2021).

Yn ogystal byddai angen cefnogi'r teuluoedd gydag ymyrraeth gynnar i newid ac i addysgu ffordd iachus o fyw, byddai modd croesawi rieni i mewn i'r ysgol er mwyn gwneud grwpiau i goginio ryseitiai gwahanol a byddai hyn yn helpu i gymdeithasu gyda theuluoedd eraill (All Answers, 2018; change 4 life, dim dyddiad; Llywodraeth Cymru, 2017, Ferdman *et al.* 2020).

Pwysleisir fod angen i les rhieni i fod yn goncrit, dywedai Newland (2015) pwrpas hyn ydy i greu unigolion iachus sydd yn rhoi'r canlyniad o bositifrwydd i'r teulu oll, byddai hyn yn agor drysau i'r plentyn i fynd ati i ddatblygu ar draws ei meysydd dysgu yn yr ysgol a'r gymuned. Byddai hyn yn trosglwyddo pwysigrwydd fod angen ieuchyd meddwl iachus yn y cartref er mwyn galluogi bywyd iach. Hynny yw yn trosglwyddo ffurf holistaidd i'r plant er mwyn teimlo yn gartrefol a diogel yn yr ysgol, a phwysleisiwyd os byddai plentyn yn hapus ac yn teimlo yn esmwyth yn yr ysgol byddai modd i'r plentyn i flodeuo wrth ddysgu a datblygu yn y byd addysg (Llywodraeth Cymru, 2020; Ephgrave, 2018; Sharp, 2022).

Heblaw hynny byddai hyn yn cyd-fynd gyda NSPCC (2021), pwysleisir diffiniad ieuchyd ydy yn gorfforol a feddyliol, unwyd hyn gydag un or pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru i fod yn

unigolion iach a hyderus (Llywodraeth Cymru, 2015a; Llywodraeth Cymru, dim dyddiad). Dywedwyd fod angen canolbwyntio ar yr ieched meddwl ac ieched y corff yn gyfartal a byddai hyn yn diogelu plant rhag niwed, er mwyn datblygu yn iachus i gyflawni lles cadarn. Fodd bynnag dywedir Newland (2015) byddai angen i gylch agos y plentyn sef y gymuned i fynd ati i ddiogelu'r plentyn er mwyn taro a chyflawni hawliau'r plant (unicef, dim dyddiad).

Heblaw hynny, datlwyd Comisiynydd Plant Cymru (2022) plant a phwysleisir fod angen gwrando ar leisiau'r unigolion er mwyn gallu taro anghenion personol ym mywyd y plentyn. Dywedai fod lles ac ieched meddwl y plant ar y brig a dyma beth yw ei chanolbwynt wrth drafod bywydau'r unigolion a sut gallan nhw fynd ati i helpu yn effeithiol. Gwelwyd unicef (dim dyddiad) fod erthyglau 13, 19, 28 a 31 yn pwysleisio ar les y plentyn sydd yn hanfodol i gyflawni a chadarnhau hawliau dynol sylfaen y plant.

Cyfunwyd hyn gyda Chwricwlwm Newydd i Gymru a dywedwyd mai'r plentyn ydy'r gwreiddyn i'r cynllunio er mwyn trosglwyddo mwynhad yn y chwarae ar ddysgu, fodd bynnag i fod yn wyliadwrus fod angen cynnwys pawb fel rhan o ddatblygiad y plentyn ac i fod yn lleoliad sydd ag arweinyddiaeth gynhwysol gadarn. Yn amlwg gwelwyd fod angen gweithio a gwella ar y sefydliadau yma er mwyn trosglwyddo ac adeiladu ar y perthnasoedd gyda'r gymuned a byddai hyn angen amser i gynnal a chadw. Wrth fod yn wyliadwrus o hyn dyma ble byddai ysgolion, rhieni ar gymuned yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn dyfodol y plentyn (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad; Llywodraeth Cymru, 2015a; Llywodraeth Cymru, 2022; Ephgrave, 2022; Sharp, 2022; Ferdman *et al.* 2020; Ferdman a Deane, 2013).

Adran 2

Mae polisïau yn hanfodol i weithle i sefydlu terfyn i ddangos disgwyliadau a gwir weledigaeth y gweithle er mwyn amddiffyn unigolion, mewn ysgol byddai hyn yn taro hawliau staff, plant, rhieni a'r gymuned (Baldcock *et al.* 2013; Siraj *et al.* 2019). Pwysleisia fod pob un gweithle angen polisïau clir ac eglur er mwyn cefnogi unigolion er mwyn deall y cyfarwyddiadau (Bowers *et al.* 2012). Maen statudol i gael polisïau yn yr ysgolion GOV.UK (2022) a byddai angen ail edrych ar bolisïau yn flynyddol er mwyn cyd-fynd gyda deddfau sydd wedi cael ei diweddarau neu i newid y polisïau i gyd-fynd gydag ansawdd yr ysgol. Awgrymai Baldcock *et al.* (2013) nad yw polisïau yn mynd i blesio pawb am fod pawb a barn wahanol ond pwrpas polisïau ydy i wneud yn siŵr fod ffurflen gadarn ar gael i amddiffyn unigolion. Dywedai fod angen rhoi gweledigaeth glir or polisïau yma i'r unigolion i bawb i fod yn ymwybodol o'r hyn y gofynnwyd.

Yn ôl Danielsson (2015) a Ferdman a Deane (2013) mae yna ddau wahanol fath o bolisi, mae yna lefel micro a lefel macro a byddai hyn yn diffinio'r lefel or polisi. Mae'r polisi lefel macro yn ymblygu mae polisi ar raddfa eang sydd yn genedlaethol (Baldcock *et al.* 2013). Yn ogystal â hynny byddai polisïau ar lefel micro mewn gweithle ar raddia llai. Felly fel enghraifft byddai polisi macro i'r llywodraeth a byddai lefel micro i sefydliadau fel ysgolion neu sefydliadau blynyddoedd cynnar. Boed ym mholisi ar lefel macro neu ar lefel micro byddai angen bod rhain yn cael ei weithredu gan arweinyddiaeth gynhwysol. Gwelwyd byddai cael polisïau mewn sefydliadau addysg er mwyn arwain unigolion i allu cael y gorau oll i gefnogi dyfodol y plant (Danielsson, 2015).

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru (2017) y cwricwlwm newydd i Gymru ydy i gymryd anghenion pob un unigolyn mewn i ystyriaeth wrth gael ei addysgu, fodd bynnag ydy hyn yn cael ei gyflawni yn yr ysgolion drwy darparu arweinyddiaeth gynhwysol ar draws y cwricwlwm. Gwelwyd gan Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) a Llywodraeth Cymru (2016) fod angen i bob un lleoliad yng Nghymru i ddechrau a gweithredu ar ei daith newydd er mwyn gallu adeiladu a chyfiawnhau cyfleoedd cadarn i bob plentyn yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019). Diwylliant unigolion a'i theuluoedd ydy un maes eang yn y cwricwlwm a dywedir fod angen fod yn gynhwysol wrth ymgymryd yn y rôl yma. i gynllunio cwricwlwm sydd yn gefnogol i adnabod a dathlu gwahanol ddiwylliannau'r byd. Pwrpas hyn ydy i dathlu cydraddoldeb yn y gymuned eang (Llywodraeth Cymru, 2015a), fodd bynnag nid yw dathlu'r rhain am ddiwrnod yn ddigon da. Dywedwyd Hallett (2016) dylai hyn fod yn rhan annatod o addysg o ddydd i ddydd (Siraj. *et al.* 2019). Hynny yw nid yw dathlu diwrnod blwyddyn newydd Tseiniaidd un diwrnod y flwyddyn yn ddigon, yn ogystal â dathlu hyn byddai angen adnoddau yn y cynllunio parhaus yn y dosbarthiadau. I roi y deimlad o

berthyn i'r unigolion yma i deimlo fel bod ei diwylliant nhw yn rhan o'r ysgol (Ephgrave, 2022; Ephgrave, 2018; Llywodraeth Cymru, 2022). Fodd bynnag byddai angen newidiaeth mawr yn y ffordd o ddysgu er mwyn hyrwyddo hyder i hunaniaeth y plentyn, gwelwyd Llywodraeth Cymru (2019) byddai arweinyddiaeth gynhwysol effeithiol yn gallu newid y weledigaeth yn y sefydliad. Hynny yw i groesawi'r teulu a'r gymuned eang i addysgu a dathlu'r diwylliannau ar draws y cwricwlwm er mwyn newid y ffordd o ddysgu yn bositif ac yn effeithiol i ddyfodol y plant (Comisiynydd Plant Cymru, 2022; Ferdman *et al.* 2020; Ferdman a Deane, 2013).

Er bod y syniad o greu cwricwlwm cynhwysol i bob un unigolyn yn cyd-fynd gydag anghenion y plant nid yw hyn o hyd yn cael ei gyflawni (Douglas, 2019). Hynny yw am fod y Cwricwlwm newydd i Gymru Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) wedi ei greu ar raddfa lefel macro Danielsson (2015) nid yw hyn o hyd yn beth da, rhesymau am hyn ydy am nad oes profiadau ar lawr y dosbarth gan y bobl sydd yn cynllunio'r polisiau. Dywedai Llywodraeth Cymru (2019) fod angen i arweinyddion cynhwysol i fod yn rhan o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm sydd â phrofiad ar lawr y dosbarth, awgrymwyd Department for Education (2015) ei fod yn wahanol i ddirprwyo cynllun os nad yw yn realistig i ddilyn yn y lleoliadau. Hynny yw er bod y cwricwlwm ei hunain Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) wedi ei gyflawni, gwelwyd fod hyn yn cael ei trosglwyddo i'r sefydliadau drwy roi cyfrifoldebau i arweinyddion cynhwysol er mwyn cael y gallu i flodeuo a sefydlu cwricwlwm sydd yn addas i'r lleoliad ei hunain (Douglas, 2019). Gydag hynny pwysleisir fod y cwricwlwm yn trosglwyddo yr angerdd i ymarferwyr yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gwelwyd wrth i ymarferwyr i gynllunio o amgylch perthyn, cyfarthrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles byddai cwricwlwm cadarn a chryf yn cael ei adeiladu er mwyn datblygiadau yr unigolion (Llywodraeth Cymru, 2022; Ephgrave. 2018; Sharp, 2022; Thronton a Brunton, 2014).

Fodd bynnag er bod hyn i rai ymarferwyr yn newid hynod o gyffrous nid yw hyn yn denu pob unigolyn, byddai angen fod yr unigolyn yn hyderus yn y camau cynnydd ac yn ei gwybodaeth am weledigaeth y cwricwlwm newydd i Gymru (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad). Dywedai fod pwyslais ar ymarferwyr i gyflawni'r cwricwlwm cywir er mwyn gwarantu arweinyddiaeth gynhwysol yn yr ysgol gyfan (Llywodraeth Cymru, 2019). Awgrymai Waters (2016) byddai angen hyfforddiant eang iawn ar rhai unigolion er mwyn deall gwir bwrpas cyfnewid cynllun yr ysgolion, dywedir byddai rhai unigolion a diffyg hyder, gwybodaeth, sgiliau a'i chredoau unigol nhw. Dywedir gall hyn fod yn digalonnu i rai unigolion os nad oes arweinyddiaeth gynhwysol yn ei chefnogi. Hynny yw byddai angen hyfforddiant parhaus ar ymarferwyr i allu gwella i ddeall a darparu'r cwricwlwm newydd Waters (2016) ond heb arweinyddiaeth gadarnhaol ni fydd hyn yn gallu cael ei gyflawni a byddai plant yn cael ei golli yn y system (Siraj *et al.* 2019).

Pwrpas polisi micro ydy i fod yn ymwybodol o brofiadau ac amgylchiadau unigol, byddai hyn yn cynnwys plant a theuluoedd o gefndiroedd anfantais (Estyn, 2020; Llywodraeth Cymru, 2017; Llywodraeth Cymru, 2015). Gwelwyd wrth gyflawni sefydliadau sydd ag arweinyddiaeth gynhwysol Ferdman (2013) byddai hyn yn cynnwys fod angen i unigolion i deimlo fel rhan o gymuned a bod hawliau'r plentyn yn cael ei gyflawni (unicef, dim dyddiad; CCUHP, 2016). Pwysleisir fod pwysigrwydd tu ôl i greu polisiau gynhwysol sydd yn cynnwys y teimlad o deulu ac nad yw un unigolyn yn wahanol i'r eraill. Fodd bynnag er byddai polisiau ar gael byddai dal angen i drosglwyddo'r teimlad yma ar lawr y dosbarth Waters (2016) a dyma ble mae gwir ganlyniadau yn cael ei drosglwyddo. Pan fyddai sefydliadau yn gynhwysol byddai hyn yn cael ei gweld yn ddyddiol i'r plant, teuluoedd ar gymuned i daro'r pedwar diben cwricwlwm newydd i Gymru sydd yn hyrwyddo unigrwydd yr unigolion (Llywodraeth Cymru, 2015a; Siraj *et al.* 2019).

I grynhoi gwelwyd fod gweledigaeth cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol wrth gynnwys cyfleoedd eang i ddatblygiad yr unigolion. Fodd bynnag wrth gyflawni hyn yn effeithiol byddai angen gweithio a chynnal arweinyddiaeth gynhwysol er mwyn cynnig cyfleoedd eang i gyflawni'r cwricwlwm yn llawn (Ferdman a Deane, 2013). Gydag hyn byddai angen buddsoddi amser eang yn y gymuned gyfan er mwyn gweithio gyda'i gilydd i greu ac adeiladu perthnasoedd a phartneriaeth gadarn gyda'r plant, teulu, staff a'r gymuned er mwyn creu dyfodol llawn cyfleoedd (Siraj *et al.* 2019).

Adran 3

Pwrpas y blog yma ydy i hyrwyddo sut i gynnwys pob unigolyn yn y lleoliad, boed yn blentyn, rhiant neu aelod o staff. Ond sut mae gwneud hyn mewn ffordd effeithiol? Mae gan bawb syniad ei hunain o beth ydy cynhwysol a byddai hyn yn cael ei chyflwyno yn wahanol mewn gwahanol sefydliadau, ond yn y blynyddoedd cynnar cynhwysol ydy i berthyn i bawb sydd yng nglŵm gyda'r lleoliad (Baldcock *et al.* 2013; Booysen, 2020; Bowers *et al.* 2012).

Byddai gan rhai y syniad taw i fod yn gynhwysol tuag at deuluoedd yn uniongyrchol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol Llywodraeth Cymru (2021a) ac er bod hyn yn bwysig i weithio yn agos gyda'r teuluoedd yma mae'n rhaid bod yn agored i'r syniad fod angen cynnwys pob un unigolyn sydd ag anghenion gwahanol (Scanlan. a Johnson, 2021). Rhesymau am hyn ydy fod pob un unigolyn gydag anghenion unigryw boed yn rhesymau amlwg i'r golwg neu resymau bach (Siencyn, 2010). Mae i fod yn arweinydd cynhwysol yn cynnwys i fod yn ymwybodol or pethau bach yma ym mywydau'r plentyn sydd yn gallu effeithio ar unigolion yn enfawr (Siraj-Blatchford *et al.* 2009).

Arweinyddiaeth gymhwysol ydy i greu gweledigaeth gadarnhaol ym mywyd agos y plentyn er mwyn i bawb fod yn ymwybodol o ei daith datblygu unigol. Byddai gweld y plentyn fel plentyn unigryw yn rhoi effaith cadarnhaol ar y daith dysgu, ond sut mae hyrwyddo hyn yn y lleoliadau? Un peth sydd yn glir ydy bod yr angen yno i gael gweledigaeth glir o unigrywiaeth yr unigolyn ac i groesawi'r gymuned i fod yn rhan o deulu'r sefydliad (Ephgrave, 2022; Llywodraeth Cymru, 2022; Parentzone Scotland, 2021; Siencyn, 2010). Wrth ystyried hawliau y plant unicef (dim dyddiad) wrth arwain unigolion yn enwedig llais y plentyn Murray (2019) dylai hyn trosglwyddo proses sydd yn uniongyrchol er mwyn gwella a chadw anghenion personol y plant, ymarferwyr, teuluoedd a'r gymuned er mwyn gweithio fel tim (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae arweinyddiaeth gynhwysol yn hanfodol i sefydliadau blynyddoedd cynnar er mwyn creu amgylchedd sydd yn rhoi'r teimlad o berthyn (Department for Education, 2015).

Er mwyn sefydlu sefydliad cynhwysol byddai angen arweinyddiaeth sydd yn taro lawer o wahanol agweddau, hynny yw person sydd yn ystyriol, yn gallu dangos empathi i uniaethu ag eraill ac fod y drws o hyd ar agor (Comisiynydd Plant Cymru, 2022). Fel y gwelwn brif agweddau'r cwricwlwm newydd ydy i ganolbwyntio ar les a sut mae gweithredu hyn er mwyn adeiladu ac i gynnal lles yr unigolion a gwelwyd byddai gwrando ar lais yr unigolion yn darparu hyn (Llywodraeth Cymru (2020; Llywodraeth Cymru, 2022; Llywodraeth Cymru, dim dyddiad; Llywodraeth Cymru, 2015a).

Hynny yw byddai arweinyddiaeth gynhwysol yn cael ei daro pan fyddai lleisiau'r unigolion yn cael ei glywed, er mwyn gallu agor drysau i rannu gwybodaeth i ddeall beth ydy gofynion yr unigolion boed yn grefydd, ethnigrwydd neu greddau (Llywodraeth Cymru, 2022; Llywodraeth Cymru, dim dyddiad; Llywodraeth Cymru, 2015b; Llywodraeth Cymru, 2015a; Cheung a Kam, 2019). Gwelwyd byddai cyfleoedd yna ar gael i'r unigolion i fynd ati i adeiladu ar ei gwybodaeth bersonol nhw i allu derbyn yr addysg gorau oll. Yn y blynyddoedd cynnar byddai hyn yn cael ei drosglwyddo i'r plentyn yn bennaf yn y ddarpariaeth barhaus Llywodraeth Cymru (2022), i newid adnoddau i fod yn bwrpasol i'r teuluoedd yma, i wneud yn siŵr fod dathliadau dyddiol yn cael ei gynnwys drwy gydol y dydd i roi'r teimlad o gynefin i'r unigolion (Ephgrave, 2018; Sharp, 2022).

I grynhoi gwelwyd ei fod pwysigrwydd i gael sefydliadau sydd ag arweinyddion cynhwysol gadarn er mwyn gallu darparu'r bywyd orau oll i'r unigolion. I wneud yn siŵr fod y plant yn cael y cyfleoedd i ehangu ac i blodeuo mewn ffordd sydd yn unigryw iddyn nhw (Rodd, 2020; Hallett, 2016; Douglas, 2019).

Cyfeirnod

Aruma, E.O. a Hanachor, M.E. (2017) 'Abraham Maslow's Hoerarchy of Needs and Assessment of Needs in Community Development', *International Journal of Development and Economic Sustainability*, Cyfrol.5, Rhif.7, tud.15-27, Ar Gael: <https://www.eajournals.org/wp-content/uploads/Abraham-Maslow%E2%80%99s-Hierarchy-of-Needs-and-Assessment-of-Needs-in-Community-Development.pdf> (Darllenwyd: 06/06/22).

Baldcock, P. *et al.* (2013) *Understanding early years provision*, London;Sage, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Baldock,%20Fitzgerald%20and%20Kay%20(2013)%20What%20is%20policy.pdf (Darllenwyd: 09/06/22).

Booyesen, L.A.E. (2020) *Inclusive Leadership: Responsible Inclusive Leadership*, Argraffiad 1af, Routledge, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/booyesen,%20L.%20(2020)%20Responsible%20Inclusive%20Leadership%20a%20whole%20system%20collective%20process.pdf (Darllenwyd: 05/06/22).

Bowers, K. *et al.* (2012) 'How inclusive leadership can help your practice adapt to change: The most effective leaders realize that everyone's input is valuable', *Family practice management*, Ar Gael: <https://www.aafp.org/dam/brand/aafp/pubs/fpm/issues/2012/0100/p8.pdf> (Darllenwyd: 05/06/22).

Brown, B. (2020) *Dare to lead*, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Brene-Brown-on-Power-and-Leadership-10-26-20%20(1).pdf (Darllenwyd: 07/06/22).

CCUHP (2016) *Confensiwn ar hawliau'r Plentyn*, Ar Gael yn: [https://downloads.unicef.org.uk/wp\[1\]content/uploads/2016/08/unicef-convention-rights-child-uncrc.pdf](https://downloads.unicef.org.uk/wp[1]content/uploads/2016/08/unicef-convention-rights-child-uncrc.pdf) (Darllenwyd: 04/06/22).

Claassens, T. a Lessing, A. (2015) 'Young adult learners with dyslexia: their socio-emotional support needs during adolescence', *Journal of Psychology in Africa*, Ar Gael: <https://www-tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/full/10.1080/14330237.2015.1007599> (Darllenwyd: 09/06/22).

Comisiynydd Plant Cymru (2022) *Agor Drysau: diweddariad ar ein gwaith 'Dim Drws Anghywir'*, Ar Gael: <https://www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/blog-sally/agor-drysau-diweddariad-ar-ein-gwaith-dim-drws-anghywir/> (Darllenwyd: 06/06/22).

Cyngor Caerdydd (2022) *Rhwydwaith Ysgolion Iach Caerdydd*, Ar Gael: [Rhwydwaith Ysgolion Iach \(cardiff.gov.uk\)](https://rhwydwaith.ysgolion.iach.cardiff.gov.uk) (Darllenwyd: 07/06/22).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) *Addysg a Gofal Plentynod Cynnar yng Nghymru: Cyflwyniad Briff Ymchwil*, Ar Gael: [file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Dallymore%20\(2019\)%20Addysg%20a%20gofal%20cyflwyniad%20briff%20ymchwil.pdf](file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Dallymore%20(2019)%20Addysg%20a%20gofal%20cyflwyniad%20briff%20ymchwil.pdf) (Darllenwyd: 08/06/22).

Cheung, S.K. a Kam, C.S. (2019) 'Hong Kong pre-service early childhood teachers' attitudes towards parental involvement and the role of their family relationship quality', *Journal of Education for Teaching: International Research and Pedagogy*, tud.417-433, Ar Gael: <https://eric.ed.gov/?q=The+Importance+Teaching+physical+education+and+Its+Educational+Effects+for+high+school+from+perspectives+of+teacher&ff1=souJournal+of+Education+for+Teaching%3A+International+Research+and+Pedagogy&ff2=autCheung%2C+Sum+Kwing&id=EJ1223025> (Darllenwyd: 06/06/22).

Danielsson, J. (2015) *Macro vs microeconomic policy: is there a winner?*, Ar Gael: <https://www.weforum.org/agenda/2015/10/macro-vs-microeconomic-policy-is-there-a-winner/> (Darllenwyd: 08/06/22).

Department for Education (2015) *Effective school partnerships and collaboration for school improvement: a review of the evidence*, Ar Gael: [Effective school partnerships and collaboration for school improvement: a review of the evidence \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk) (Darllenwyd: 06/06/22).

Department for Education (2018) *Free School Meals*, Ar Gael: [Free school meals guidance \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk) (Darllenwyd: 02/06/22).

Douglas, A. (2019) 'Leadership for Quality Early Childhood Education and Care', *OECD Education Working Paper*, Rhif. 211, Ar Gael: <file:///C:/Users/Teacher/Downloads/power.pdf> (Darllenwyd: 07/06/22).

Ephgrave, A. (2018) 'Planning in the moment with young children', Routledge, (Darllenwyd: 05/06/22).

Ephgrave, A. (2022) 'Planning in the moment', Cyngor Sir Gar, Microsoft Teams.

Estyn (2020) *Adeiladu ethos yn seiliedig ar barch ar y ddwy ochr*, Ar Gael: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/adeiladu-ethos-yn-seiliedig-ar-barch-ar-y-ddwy-ochr?_ga=2.96584031.1187016011.1654689032-690845616.1652295331 (Darllenwyd: 06/06/22).

Ettekal, A. a Mahoney, J.L. (2017) 'Ecological Systems Theory', *The SAGE Encyclopedia of Out-of-School Learning*, tud.239-241, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/EttekalMahoneySageEncycEST2017.pdf (Darllenwyd: 06/06/22).

Ferdman, B.M. a Deane, B.R. (2013) *Diversity at Work: The Practice of Inclusion*, John Wiley & Sons, Ltd, Ar Gael: <https://onlinelibrary-wiley-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/epub/10.1002/9781118764282> (Darllenwyd: 06/06/22).

Ferdman, B.M. et al. (2020) *Inclusive Leadership*, Argraffiad 1af, New York: Routledge, Ar Gael: <https://www.taylorfrancis.com/books/edit/10.4324/9780429449673/inclusive-leadership-bernardo-ferdman-jeanine-prime-ronald-riggio> (Darllenwyd: 05/06/22).

Fulbrook, P. (2019) 'The Complete Guide to Lev Vygotsky's Learning Theories', [blog] Ar Gael: <https://teacherofsci.com/vygotsky/> (Darllenwyd: 08/06/22).

Gofal Cymdeithasol Cymru (2022) *Y Triongl Drama mewn diogelu plant*, Ar Gael: <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau/y-triongl-drama-mewn-diogelu-plant> (Darllenwyd: 08/06/22).

GOV.UK (2022) *Statutory policies for schools and academy trusts*, Ar Gael: <https://www.gov.uk/government/publications/statutory-policies-for-schools-and-academy-trusts/statutory-policies-for-schools-and-academy-trusts> (Darllenwyd: 08/06/22).

Gu, C. (2020) 'The Influences From Montessori to the Early Years Children', *Education and Humanities Research*, Cyfrol 480. Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/125945870.pdf (Darllenwyd: 04/06/22).

Hallett, E. (2016) 'Inclusive Early Years Practise', *Early Years Practice: For Educators and Teachers*, Sage, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/early-years-practice-for-educators-and-teachers_i656.pdf (Darllenwyd: 06/06/22).

Ho, D. (2012) 'The Paradox of Power in Leadership in Early Childhood Education', *Peabody journal of education*, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Ho%20Paradox%20of%20Power%202012.pdf (Darllenwyd: 07/06/22).

Jenna, S. et al. (2018) 'P29 - Someone is Judging Me: The Impact of Social Evaluation on Parents', *Journal of Nutrition Education and Behavior*, Cyfrol.50, Rhif.7S, Ar Gael: [https://www.jneb.org/article/S1499-4046\(18\)30264-1/pdf](https://www.jneb.org/article/S1499-4046(18)30264-1/pdf) (Darllenwyd: 06/06/22).

Leach, T. a Lewis, E. (2012) *Children's experiences during circletime: a call for research* informed debate, Ar gael yn:

<https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/02643944.2012.702781?needAccess=true>
(Darllenwyd: 10/06/22).

Llywodraeth Cymru (2014) *Free Breakfast in Primary School*, Ar gael:
https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/503678/mod_resource/content/1/140627-free-breakfastprimary-guidance-en.pdf?redirect=1 (Darllenwyd: 05/06/22).

Llywodraeth Cymru (2015) *Child Poverty Strategy for Wales*, Ar Gael: [child-poverty-strategy-for-wales-report.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2015-03/child-poverty-strategy-for-wales-report.pdf) (Darllenwyd: 04/06/22).

Llywodraeth Cymru (2015a) *Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru*, Ar Gael:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/pedwar-diben-y-cwricwlwm-i-gymru.pdf>
(Darllenwyd: 07/06/22).

Llywodraeth Cymru (2015b) *Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru*, Ar Gael:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/ymarfer-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion-mewn-addysg-canllaw-ar-gyfer-blynyddoedd-cynnar-ysgolion-a-cholegau-yng-nghymru.pdf>
(Darllenwyd: 08/06/22).

Llywodraeth Cymru (2016) *Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh): Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru*, Ar Gael: [wynebu-r-her-gyda-n-gilydd-ygath-pecyn-cymorth-ymgysylltu-a-r-gymuned-a-theuluoedd-i-ysgolion-yng-nghymru-prif-ganllawiau.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2016-03/wynebu-r-her-gyda-n-gilydd-ygath-pecyn-cymorth-ymgysylltu-a-r-gymuned-a-theuluoedd-i-ysgolion-yng-nghymru-prif-ganllawiau.pdf)
(Darllenwyd: 06/06/22).

Llywodraeth Cymru (2017) *Families First Programme Guidance*, Ar Gael: [families-first-guidance-for-local-authorities_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2017-03/families-first-guidance-for-local-authorities_0.pdf) (Darllenwyd: 04/06/22).

Llywodraeth Cymru (2017a) *Y Gymraeg mewn addysg*, Ar Gael:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/y-gymraeg-mewn-addysg-cynllun-gweithredu-2017%E2%80%9321.pdf> (Darllenwyd: 07/06/22).

Llywodraeth Cymru (2019) *Professional standards for teaching and leadership*. Available at:
<https://hwb.gov.wales/api/storage/19bc948b-8a3f-41e0-944a-7bf2cadf7d18/professional-standards-for-teaching-and-leadership-interactive-pdf-for-pc.pdf> (Dywedwyd: 05/06/22).

Llywodraeth Cymru (2020) *Maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles*, Ar Gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/> (Darllenwyd: 03/06/22).

Llywodraeth Cymru (2021) *Agor Llwybrau*, Ar Gael: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-05/agor-llwybrau-dogfenymgynggori_0.pdf (Darllenwyd: 02/06/22).

Llywodraeth Cymru (2021a) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021*, Ar Gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/210326-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru-2021.pdf> (Darllenwyd: 07/06/22).

Llywodraeth Cymru (2022) *Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir*, Ar Gael: [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir \(gov.wales\)](https://gov.wales/cwricwlwm-ar-gyfer-leoliadau-meithrin-a-ariennir-nas-cynhelir) (Darllenwyd: 06/06/22).

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad) *Cwricwlwm i Gymru*, Ar Gael: [Cwricwlwm i Gymru - Hwb \(gov.wales\)](https://gov.wales/cwricwlwm-i-gymru) (Darllenwyd: 08/06/22).

Murray, J. (2019) 'Hearing young children's voices', *International Journal of Early Years Education*, 27:1, 1-5, Ar Gael: <file:///C:/Users/Teacher/Downloads/09669760.2018.pdf> (Darllenwyd: 07/06/22).

Making Change Happen (2006) *Making Change Happen: Power*, Ar Gael: <file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Miller%20et%20al%202006%20Power.pdf> (Darllenwyd: 06/06/22).

Newstead, S. a Isles-Buck, E. (2019) *Inclusive practice*, Ar Gael: [file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Newstead,%20S.%20and%20Isles-Buck,%20E%20\(2019\)%20Essential%20Skills%20for%20Managers%20of%20Child-Centred%20Settings%20Routledge%20London.pdf](file:///C:/Users/Teacher/Downloads/Newstead,%20S.%20and%20Isles-Buck,%20E%20(2019)%20Essential%20Skills%20for%20Managers%20of%20Child-Centred%20Settings%20Routledge%20London.pdf) (Darllenwyd: 05/06/22).

Newland, L. (2015) 'Family well-being, parenting, and child well-being: Pathways to healthy adjustment', *Clinical Psychologist*, Ar gael: <https://aps-onlinelibrary-wileycom.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/pdfdirect/10.1111/cp.12059> (Darllenwyd: 02/06/22).

NSPCC (2021) *Child Health and Development*, Ar gael: <https://learning.nspcc.org.uk/child-healthdevelopment> (Darllenwyd: 02/06/22).

Nutbrown, C. (2011) *Early Years for Everyone*, Ar Gael: <https://www.teachearlyyears.com/images/uploads/article/inclusion-in-early-years-settings.pdf> (Darllenwyd: 05/06/22).

Öztürk, M. (2013) 'Family Partnership in Early Childhood Assessment', *Mediterranean Journal of Social Sciences*, Cyfrol 4, Rhif 3, Ar Gael: <https://www.mcser.org/journal/index.php/mjss/article/viewFile/525/550> (Darllenwyd: 07/06/22).

Parentzone Scotland (2021) *What is assessment, and when and how does it take place?*, Education Scotland, Ar Gael: <https://education.gov.scot/parentzone/learning-in-scotland/assessment-and-achievement/what-is-assessment-and-when-and-how-does-it-take-place/> (Darllenwyd: 07/06/22).

Rodd, J. (2020) *Leadership in Early Childhood*, London; Routledge, Ar Gael: <https://www.taylorfrancis.com/books/mono/10.4324/9781003116295/leadership-early-childhood-jillian-rodd> (Darllenwyd: 06/06/22).

Scanlan, M. a Johnson, L. (2021) *Inclusive Leadership on the Social Frontiers Family and Community Engagement*, Ar Gael: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/549088/mod_resource/content/1/Scanlan%20and%20Johnson%202020%20Inclusive%20Leadership%20on%20the%20Social%20Frontiers%20Family%20and%20Community%20Engagement.pdf?redirect=1 (Darllenwyd: 06/06/22).

Sharp, A. (2022) *Adventures with Alice Vol.1*, Ar Gael: <https://alicesharp.co.uk/adventures/> (Darllenwyd: 05/06/22).

Siencyn, S. (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7oed*, Llandysul a Caerfyrddin: J D Lewis.

Siraj, I. *et al.* (2019) 'The Role of Professional Development in Improving Quality and Supporting Child Outcomes in Early Education and Care', *Asia-Pacific Journal of Research in Early Childhood Education*, 13(2). Ar Gael: [The role of professional development in improving quality and supporting child outcomes in early education and care \(uow.edu.au\)](#) (Darllenwyd: 05/06/22)

Siraj-Blatchford, I. *et al.* (2009) *Towards the transformation of practice in early childhood education: the effective provision of pre-school education (EPPE) project*, Ar gael: https://librarysearch.uwtsd.ac.uk/permalink/44WHELF_UWTSD/1ir6fgh/cdi_crossref_primary_10_1080_03057640801889956 (Darllenwyd: 02/06/22).

Thronton, L. a Brunton, P. (2014) *Bringing the Reggio Approach to your Early Years Practice*, Ar gael yn: file:///C:/Users/poppy/Downloads/10.4324_9781315813547_previewpdf.pdf (Darllenwyd: 02/06/22).

unicef (dim dyddiad) *The rights of every child*, Ar Gael: file:///C:/Users/Teacher/Downloads/CRC_summary_leaflet_Child_Rights_Partners_web_final%20(1).pdf (Darllenwyd: 06/06/22).

United Nations (2022) *Convention on the Rights of the Child (1989)*, Ar Gael: <https://www.ohchr.org/en/resources/educators/human-rights-education-training/7-convention-rights-child-1989> (Darllenwyd: 06/06/22).

Waters, J. (2016) 'The Foundation Phase in Wales—time to grow up?', *Cylchgrawn Addysg Cymru*. 18(1), tud.179-198. Ar gael: <https://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/715/1/Waters%2C%20J.%282016%29%20The%20foundati%20on%20phase%20in%20Wales%20-%20time%20to%20grow.pdf> (Darllenwyd: 08/06/22).